***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1565

## Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011

## RHAN 3

CAFFAEL TIR

**Diystyru rhai buddiannau a gwelliannau**

**19.**—(1) Wrth asesu'r iawndal (os oes iawndal) sy'n daladwy i unrhyw berson yn dilyn caffael unrhyw dir oddi ar y person hwnnw o dan y Gorchymyn hwn, rhaid i'r tribiwnlys beidio â chymryd i ystyriaeth—

(a) unrhyw fuddiant mewn tir, neu

(b) unrhyw ychwanegiad at werth unrhyw fuddiant mewn tir o ganlyniad i unrhyw adeilad a godwyd, gweithiau a gyflawnwyd, neu welliant neu newid a wnaed ar dir perthnasol,

os bodlonir y tribiwnlys nad oedd yn rhesymol angenrheidiol creu'r buddiant, codi'r adeilad, cyflawni'r gweithiau neu wneud y gwelliant neu newid, ac yr ymgymerwyd ag ef gyda golwg ar gael iawndal neu gynyddu iawndal.

(2) Ym mharagraff (1) ystyr "tir perthnasol" ("*relevant land*") yw'r tir a gaffaelwyd oddi ar y person dan sylw neu unrhyw dir arall y mae'r person hwnnw'n ymwneud ag ef, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu yr oedd yn ymwneud ag ef felly ar yr adeg y codwyd yr adeilad, y cyflawnwyd y gweithiau neu y gwnaed y gwelliant neu'r newid.